
# Busnes Cymdeithasol Cymru

## BYDDWCH YN BAROD am **DWF**



Cymorth arbenigol, wedi ei deilwra a'i gyllido'n llawn

Wales **Co-operative** Centre
Canolfan **Cydweithredol** Cymru

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

BYDDWCH YN BAROD am **DWF**

Strategaeth

Rheoli ansawdd

Llywodraethu

Gweithrediadau

Cyllid

Cynhyrchu incwm

Adnoddau dynol

Cwsmeriaid a defnyddwyr

Marchnata

Effaith gymdeithasol ac amgylcheddol



## Ydych chi eisiau i'ch busnes dyfu?
## Ddim yn siwr a yw eich sefydliad yn addas ar gyfer twf?
## Bwriadu denu buddsoddiad newydd?

Gallwn gynnig golwg newydd ar bethau i'ch helpu i asesu cyflwr eich sefydliad, gwirio pa mor effeithlon mae'r busnes yn cael ei gynnal a thynnu sylw at y meysydd sydd angen sylw. Yn ogystal â hyn, gallwn sefydlu pecyn o gefnogaeth wedi ei deilwra'n arbennig i'ch helpu i wneud gwelliannau fel y gall eich busnes dyfu.

Rydym yn gweithio ledled Cymru ar gyfer mentrau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, canghennau masnachu elusennol, busnesau y mae gweithwyr bechen arnyn nhw a sefydliadau ar y cyd.

Rydym wedi bod yn helpu mentrau cydweithredol a busnesau cymdeithasol ers 1982. Caiff ein tîm arbenigol o gynghorwyr busnes eu cefnogi gan ymgynghorwyr arbenigol mewn meysydd sy'n cynnwys llywodraethu, gweithrediadau, cyllid a marchnata. Ac oherwydd y caiff **Busnes Cymdeithasol Cymru** ei gyllido gan **Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop** a **Llywodraeth Cymru** fel rhan o Busnes Cymru, mae'n wasanaeth rhad ac am **ddim**.

# Mae ein hasesiad **TWF** cynhwysfawr yn cynnwys y meysydd canlynol:

## Strategaeth

Beth yw eich strategaeth tymor hir? Pwy sy'n rhan o ffurfio cyfeiriad y sefydliad? Ydy gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cyd-fynd â'r strategaeth cyffredinol? Ydych chi'n mesur datblygiad yn unol â'ch cynllun strategol?

## Llywodraethu

Pa mor gadarn yw eich trefniadau llywodraethu? Ydy eich strwythur cyfreithiol yn addas i'r pwrpas? Ydy rhanddeiliaid yn cael eu cynrychioli? Ydy cyfarwyddwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau? Oes gan y Bwrdd agwedd bwrpasol tuag at risg? Ydych chi'n gweithredu o fewn y gyfraith?

## Cyllid

Pa mor iach yn ariannol yw eich sefydliad? Ydy gwybodaeth ariannol yn cael ei defnyddio i fesur datblygiad? Ydy llif arian yn cael ei reoli'n effeithlon? Ydy asedau yn cael eu ddefnyddio i'w llawn potensial? Oes cynllun ar gyfer cyllido'r strategaeth sefydliadol?

## Gweithrediadau

Ydy eich systemau a'ch gweithdrefnau cyfredol yn eich galluogi chi i weithredu'n effeithlon? Ydy eich gweithgaredd gweithredol yn cysylltu â'ch cynllun strategol? Ydych chi'n mesur effeithlonrwydd eich gweithrediadau?

## Adnoddau dynol

Ydy eich dogfennau cyflogaeth yn gyfredol ac yn addas i'r pwrpas? Ydy aelodau'r staff yn teimlo eu bod wedi eu sbarduno? Ydyn nhw'n deall sut gallan nhw gyfrannu at y strategaeth gyffredinol? Ydyn nhw'n gallu rhannu syniadau newydd gyda'r tîm rheoli? Sut ydych chi'n mesur ac yn rheoli perfformiad?

## Cynhyrchu incwm

Oes gan y sefydliad ystod o ffynonellau incwm sy'n darparu sail refeniw sefydlog ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol? Oes diwylliant o arloesi? Sut caiff syniadau newydd eu gwerthuso? Pa gyfleoedd sydd ar gyfer twf?

## Cwsmeriaid a defnyddwyr

Ydych chi'n deall eich marchnad darged? Ydych chi'n cwrdd â'u gofynion? Ydyn nhw'n rhan o'ch cynlluniau? Ydych chi'n cyfathrebu'n effeithiol â nhw?

## Marchnata

Pa mor effeithiol yw eich marchnata? Ydych chi wedi ystyried llwybrau marchnata gwahanol? Oes gan aelodau o'r tîm y sgiliau iawn i farchnata a gwerthu'n effeithiol? Ydy eich brand yn addas i'r pwrpas?

## Effaith gymdeithasol ac amgylcheddol

Ydych chi'n mesur eich effaith gymdeithasol ac amgylcheddol? Allwch chi ddangos tystiolaeth o'r gwaith da yr ydych yn ei wneud? Ydych chi'n ymwybodol o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol? Ydy polisïau a gweithdrefnau'ch cyflogaeth yn hyrwyddo cydraddoldeb cyfle? Allech chi wneud mwy i leihau eich ôl troed carbon a gweithio tuag at gwell cynaliadwyedd?

## Rheoli Ansawdd

Sut ydych chi'n gwybod os ydych yn gwneud yn dda? Oes gennych ffyrdd o gofnodi eich perfformiad? Ydych chi wedi meddwl am gael safon ansawdd briodol?

BYDDWCH YN BAROD am **DWF**

"Gweithiodd **Busnes Cymdeithasol Cymru** gyda ni i wneud yn siwr bod yr holl waith paratoi yn ei le fel ein bod yn gallu mynd i'r afael â menter fusnes newydd a datblygu ein sefydliad. Cymeron nhw ymagwedd hollol holistaidd fel bod yr holl sefydliad ar sail gadarn cyn i ni fentro i diriogaeth newydd. Fe wnaethon nhw hefyd barhau i fod yn "ffrind beirniadol" fel bod yr ehangu'n aros ar y trywydd iawn."

**Alwyn Rowlands**
*Canolfan Hamdden Beaumaris*


"Cyflwynodd **Busnes Cymdeithasol Cymru** weithdy hwyluso gweledigaeth i'n helpu i ddatblygu strategaeth amrywio incwm ar gyfer ein sefydliad. Rhoddodd hyn gyfle i'r staff, gwirfoddolwyr a chyfarwyddwyr i asesu'r marchandoedd y gallai ein sefydliad fanteisio arnynt. Mae'r gefnogaeth yr ydym wedi ei debyn gan Busnes Cymdeithasol Cymru wedi bod o safon eithriadol."

**Erika Walker**
*Ismooth Cafe*

"Mae'r cymorth gan **Busnes Cymdeithasol Cymru** wedi bod yn amhrisiadwy o ran sefydlu ein ffocws busnes, o'u cymorth ymarferol i'w sgiliau cyfeirio mewn meysydd arbenigol. Mae eu hygyrchedd wedi bod heb ei ail, gan ein cynorthwyo a'n sbarduno yn aml wrth i ni ddatblygu. Credaf fod eu cefnogaeth, nid yn unig yn fanteisiol i fusnes newydd, ond hefyd i fusnesau sydd wedi eu sefydlu, sy'n wynebu heriau, gan eu cynorthwyo i weithredu datrysiadau."

**Andrea Wayman**
*Elite Paper Solutions*

Ymhlith y cleientiaid mae:



## Gogledd Cymru

- Antur Stiniog Cyf
- Antur Waunfawr Cyf
- Partneriaeth Parc Caia
- CAIS Social Enterprise
- Galeri Caernarfon
- Llandudno Football in the Community
- Tyddyn Môn
- Vi-ability
- Wrecsam AFC

## De-orllewin Cymru

- Barod
- Down to Earth
- iSmooth Cafe
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Y Gweilch yn y Gymuned
- Swansea Carers Centre
- YMCA Abertawe
- Xcel Bowl

## De-ddwyrain Cymru

- Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
- Age Connects Caerdydd a'r Fro
- Asiantaeth Cyflogaeth gyda Chefnogaeth Elite
- Emmaus De Cymru
- Busnes Partneriaeth Fern
- Mentrau Gofal
- Greenstream Flooring
- Green Willow Funerals
- Indycube CIC
- Too Good to Waste
- Torfaen Leisure Trust

BYDDWCH YN BAROD am **DWF**

Mae gwasanaeth **Busnes Cymdeithasol Cymru** yn cael ei ddarparu gan **Ganolfan Cydweithredol Cymru**, sef corff cenedlaethol Cymru ar gyfer mentrau cydweithredol a busnesau cymdeithasol. Mae gennym dros 30 mlynedd o brofiad o helpu busnesau cymdeithasol a chyrff cydweithredol mewn llawer o sectorau gan gynnwys hamdden, twristiaeth, addysg, ynni adnewyddadwy, manwerthu cymunedol a gofal cymdeithasol.

I ddarganfod mwy a thrafod sut gallwn eich helpu i gynyddu eich busnes cymdeithasol, gallwch ddefnyddio'r dulliau isod i gysylltu â ni:

Ffoniwch: **03000 6 03000** a gofyn am **Busnes Cymdeithasol Cymru**
Ebost: **sbwenquiries@wales.coop**
Ewch i: **businesswales.gov.wales/socialbusinesswales**

Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Ni fydd oedi os byddwch yn gohebu â ni yn Gymraeg.